



Gwybodaeth i gleifion sydd wedi cael trallwysiad gwaed yn annisgwyl

Dylai'r daflen hon gael ei darllen ochr yn ochr â'r daflen gwybodaeth i gleifion Gwasanaeth Gwaed Cymru - 'A fydd angen trallwysiad gwaed arnaf?'

Tra roeddech yn yr ysbyty, ystyriwyd ei fod yn angenrheidiol i chi roi gwaed.

Mae nifer o resymau pam y gallai cleifion fod angen trallwysiad, ac mae rhai ohonynt yn cael eu trafod yn y daflen 'A fydd angen trallwysiad gwaed arnaf?'. Fodd bynnag, gofynnwch i aelod o'ch tîm gofali iechyd i gael gwybod pam oeddech chi angen trallwysiad gwaed. Byddant yn gallu ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

Ydy trallwysiadau gwaed yn ddiogel?

Ydyn, mae'r perygl i drallwysiad gwaed eich gwneud ynsâl yn isel iawn. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am unrhyw risgiau haint posibl a'r holl gamau sydd wedi eucymryd i wneud yn siŵr eich bod yn ddiogel yn y daflen 'A fydd angen trallwysiad gwaed arnaf?'.
Rwy'n rhoi gwaed. A gaf i felly ddal i roi gwaed?

Oes angen i mi roi gwybod i fy meddyg?

Fel mesur rhagofalol ac er mwyn lleihau'r risg odroglwyddo Clefyd Amrywiolyn Creutzfeldt-Jakob, nid yw pobl sydd wedi cael trallwysiad gwaed ers 1980 yn gallurhoi gwaed ar hyn o bryd.

Dylai'r ysbyty gynnwys yr wybodaeth yn y llythyr fydd yn cael ei anfon at eich Meddyg Teulu ar ôl i chi adael yrsbyty, i roi gwybod iddynt eich bod chi wedi cael trallwysiad gwaed, a'r rheswm am hynny. Dylai'r ysbytyroi copi o'r llythyr hwn i chi. Os nad ydynt yn gwneud hyn, gallwch ofyn i'r ysbyty am gopi.

Ffynonellau ychwanegol o Wybodaeth

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am drallwysiad gwaed a bod gennych fynediad i'r rhyngwyd, efallai ybydd y gwefannau canlynol yn ddefnyddiol i chi:

Gwasanaeth Gwaed Cymru
www.gwaedcymru.org.uk

NHS Choices
www.nhs.uk/conditions/blood-transfusion

Gwasanaethau Trallwysio'r DU
www.transfusionsguidelines.org.uk

Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG
www.nhsbt.nhs.uk/what-we-do/blood-services/blood-transfusion/

Er mwyn cynllunio ar gyfer y galw am waed yn y dyfodol, mae angen casglu gwybodaeth am ba gleifion sy'n derbyngwaed. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i ysbyty neufeddyg teulu roi gwybodaeth feddygol gyfyngedig amsampl o gleifion sydd wedi cael trallwysiadau gwaed. Mae unrhyw wybodaeth sydd yn cael ei hanfon ymlaen i GGC yn cael ei chadw'n ddiogel, ac mae hawliau'r cleifion hyn yn cael eu diogelu o dan y ddeddfwriaeth diogelu data.

Gellir cael fersiwn hwylus i'w hargraffu o'r daflen hon yn:
<https://portal.welsh-blood.org.uk/bht/>

Gweithwyr iechyd proffesiynol - gallwch archebu copiau ychwanegol o'r daflen hon yn:
<https://wbs-intranet.cymru.nhs.uk/bht/leaflet-order-form/>

Cydnabyddiaethau i Waed a Thrawsblaniadau'r GIG am gynnwys gwreiddiol y daflen hon.



Gwasanaeth Gwaed Cymru
0800 252266
gwaedcymru.org.uk